
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoi **rhan 9** o
Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



**Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc**

## Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol
- pan mae ganddyn nhw anabledd
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu
- pan maen nhw'n derbyn gofal
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdanyn nhw fel y dylen nhw wneud
- pan maen nhw'n gadael gofal ac yn cael eu cefnogi i ddod yn oedolion.

## Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

*(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)*

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 9.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan - cliciwch yma:






## Paratoi

**Bydd pawb sy’n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw’n defnyddio’r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.**

Felly rydyn ni wrthi’n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae’r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy’n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

**Mae’r llyfryn yma’n dweud wrthych chi am y rheolau newydd a’r canllawiau statudol rydyn ni wedi’u datblygu ar gyfer Rhan 9 y Ddeddf.**

**Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy’n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol, a rhai plant a phobl ifanc ynglŷn â’r rhain yn barod, ond nawr rydyn ni eisiau gwybod beth yw’ch barn chi.**

**Wedyn, byddwn ni’n anfon y codau a’r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio’n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.**



## Beth y mae Rhan 9 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 9 y Ddeddf yn edrych ar faterion gwasanaethau cymdeithasol nad ydyn nhw'n cael sylw yn y 10 rhan arall.

Mae'r rhain yn cynnwys y pethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud:

- cydweithio'n well â Byrddau Iechyd Lleol
- gweithio gyda phartneriaid eraill sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth.


**Mae'r rhan yma o'r ddeddf yn rhoi sylw i gydweithio a chydweithredu.**

## Cydweithio

Bydd awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn dod at ei gilydd ar draws Cymru ac yn ffurfio chwe Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd:

- **Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru**
- **Bwrdd Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin**
- **Bwrdd Rhanbarthol Bae'r Gorllewin**
- **Bwrdd Rhanbarthol Cwm Taf**
- **Bwrdd Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro**
- **Bwrdd Rhanbarthol Gwent**

Mae **Byrddau Iechyd Lleol** yn rhedeg ysbytai, meddygfeydd, cartrefi gofal a gwasanaethau eraill y GIG.



## Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

**Pwy ddylai fod arnyn nhw.**

Mae'r canllawiau statudol yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael:

- un aelod o bob awdurdod lleol
- un aelod o bob Bwrdd Iechyd Lleol
- cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol pob awdurdod lleol
- Prif Weithredwr pob Bwrdd Iechyd Lleol
- o leiaf un person o sefydliadau ac elusennau sy'n cydweithio ag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol
- aelod o'r cyhoedd y mae Gweinidog Cymru wedi'i ddewis.

Fodd bynnag, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu cynnwys mwy o bobl os ydyn nhw eisiau gwneud hynny.

**Beth y mae angen iddyn nhw ganolbwyntio arno'n gyntaf.**

Y gwasanaethau cyntaf y mae'n rhaid iddyn nhw eu newid yw gwasanaethau ar gyfer:

- pobl hŷn
- cymorth i deuluoedd
- pobl ag anableddau dysgu
- plant ag anableddau ac anghenion cymhleth
- gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

## Adrodd

**Dangos sut maen nhw'n cyrraedd eu nodau.**

Mae'r canllawiau newydd yn golygu bod yn rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol adrodd i Weinidogion Cymru.

## Pethau eraill

**Cyllid, gwybodaeth, cyngor a chymorth.**

Mae yna rannau eraill o'r Ddeddf sydd â chanllawiau a chodau ymarfer ynglŷn â sut mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydweithredu a chydweithio.



## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fyddech chi cystal ag ateb y cwestiynau ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**erbyn 31 Gorffennaf, 2015**



## Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y rheolau newydd a'r canllawiau statudol rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 9 y Ddeddf yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw: